HARDDWCH DYSG DOETHINEB

YSGOL GLAN CLWYD

Pecyn Gwybodaeth

# Swydd Addysgu Iechyd a Gofal

(a chyfraniad at bynciau STEM)



Annwyl Ymgeisydd,

Diolch am ddangos diddordeb mewn swydd addysgu yn Ysgol Glan Clwyd.

Dyma gyfle ardderchog i ymuno gyda theulu Ysgol Glan Clwyd a datblygu gyrfa mewn ysgol Gymraeg groesawgar a'i phwyslais ar gynnydd a llesiant pob unigolyn.

Fel y gwyddoch Ysgol Glan Clwyd oedd ysgol cyfrwng Cymraeg gyntaf Cymru, ac fe'i sefydlwyd yn 1956 i ymateb i'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Ddinbych. Ers y dyddiau cyffrous, arloesol cynnar hynny mae'r ysgol wedi parhau i chwarae rhan flaenllaw wrth hybu addysg Gymraeg o'r radd flaenaf gan ymestyn y ddarpariaeth honno a'i hapêl. Ein nod o fewn muriau Ysgol Glan Clwyd yw 'Byw'r Gymraeg' gan sicrhau pob cyfle posib i'r iaith ffynnu yn y rhan arbennig yma o Gymru.

Er ein bod bellach fel ysgol yn cynnwys dros fil o ddisgyblion mae'r ymdeimlad agos a chynhaliol o deulu yn parhau yn greiddiol i weithrediad Ysgol Glan Clwyd. Rydym yn ymfalchïo yn yr egwyddor yma o deulu ac fe gredwn mai gyda'n gilydd yn deulu y gallwn ni gyflawni'r gorau er budd ein holl randdeiliaid. Er ein bod yn ysgol o faint mae sicrhau adnabyddiaeth wych o'n disgyblion yn flaenoriaeth. Drwy eu hadnabod fel unigolion gallwn eu cefnogi'n bersonol ac yn emosiynol, gan warantu fod pob disgybl yn cael chwarae teg i gyflawni ei botensial ac i fod yn Gymro neu'n Gymraes flaengar.

Mae Ysgol Glan Clwyd yn ffodus iawn erbyn hyn o'r adnoddau a'r isadeiledd rhagorol yn yr ysgol. Mae'r adeiladau a'r adnoddau newydd a modern yn darparu amgylchedd gadarnhaol a phriodol er mwyn i addysg ffynnu yn yr unfed ganrif ar hugain.

Rydym, fel ysgol hefyd, yn parhau i fuddsoddi yn ein hadnoddau digidol ac yn rhoi pwyslais mawr ar ddysgu proffesiynol staff; gan sicrhau fod ein hathrawon yn addysgwyr digidol hyderus. Byddwn felly'n chwilio am unigolyn gyda sgiliau addysgu digidol safonol. Fel ysgol sydd wedi bod yn flaengar wrth ddatblygu'r Cwricwlwm Newydd a'r cymwysterau newydd mae sicrhau ein bod yn penodi staff eangfrydig eu meddwl gyda'r gallu i gymhwyso gweledigaeth yr ysgol a chynllunio gwersi a phrofiadau ardderchog i ddisgyblion yn hanfodol.

Yn Ysgol Glan Clwyd yr ydym yn credu'n gryf fod arweinyddiaeth effeithiol ar bob lefel yn gwneud gwahaniaeth arwyddocaol mewn ysgol. Felly dyma gyfle euraid i unigolyn gweithgar ac uchelgeisiol i berthyn ac i ddatblygu ymhellach yn addysgol ac yn yrfaol. O fewn ein cymuned byddwn yn ymarfer parch, parodrwydd a chyfrifoldeb yn ein hymwneud dyddiol gyda'n gilydd. Fel hyn gallwn sicrhau ein bod yn arloesi, yn gwireddu dyheadau ac yn gynhwysol a theg ein hysbryd.

Bydd cefnogaeth lwyr gennyf i'r ymgeisydd llwyddiannus i ddatblygu ymhellach o fewn yr ysgol.

Croesawn geisiadau gan ymgeiswyr sy'n awyddus ac yn gymwys i afael yn yr heriau uchod, a bod yn rhan o deulu Ysgol Glan Clwyd wrth i ni symud ymlaen eto'n hyderus.

Yn gywir

**Sian Alwen**
Pennaeth

# Swydd Addysgu Iechyd a Gofal
## (a chyfraniad at bynciau STEM)

Swydd Addysgu Iechyd a Gofal ac unrhyw gyfraniad at ddysgu pynciau STEM  (Llawn amser ond gallwn fel ysgol fod yn hyblyg yn hyn o beth.)

Rydym yn edrych i benodi athro/athrawes i barhau  i addysgu'r cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol o safon TGAU hyd at SU. Rydym yn chwilio am ymarferydd egniol a deinamig gyda'r ymrwymiad a'r weledigaeth i ysbrydoli disgyblion yn y maes poblogaidd a llwyddiannus hwn. Byddai'r gallu i gyfrannu at oriau dysgu yn yr adran dechnoleg, gwyddoniaeth neu fathemateg hefyd yn fuddiol iawn.

Yn Ysgol Glan Clwyd, credwn yn gryf fod datblygu ein staff yn allweddol ac felly fe annogir unrhyw rai sydd â diddordeb yn y meysydd hyn i ymgeisio am fod hyfforddiant trylwyr a mentora gan arbenigwyr pwnc ar gael yn barhaus.

### Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus:

- ymlyniad at addysg Gymraeg a dealltwriaeth o bwysigrwydd y Gymraeg yng nghyd destun yr ardal arbennig y mae'r ysgol yn ei gwasanaethu.
- arbenigedd sydd yn addas/berthnasol i'r maes dysgu Iechyd a Lles.
- y gallu i gyfrannu at faes arall.
- agwedd arloesol a ffres at ddysgu gyda'r ymrwymiad i ddatblygu profiadau Iechyd a Lles i ddisgyblion.
- agwedd sy'n croesawu heriau a datblygiadau newydd yn gyson.
- y gallu i ysbrydoli disgyblion a myfyrwyr.
- y gallu i gydweithio'n rhagorol fel aelod o dim.
- y gallu i gynllunio ac arwain.
- ymrwymad cydwybodol i arlwy allgyrsiol yr ysgol.
- yr agwedd briodol sy'n mynnu'r safonau uchaf bob amser - o ran cyflawniad personol a chyflawniad eraill.

### Ydy'r wybodaeth hon wedi procio eich chwilfrydedd? Hoffech chi wybod mwy?

Os ydych yn rhannu gweledigaeth yr ysgol am yr addysg orau posib yn yr unfed ganrif ar hugain gyda'r byd digidol yng nghanol y dysgu hwnnw, ac yn awyddus i ddatblygu gyrfa mewn ysgol hapus ac arloesol, byddai'r Pennaeth Ms Sian Alwen, yn croesawu ymholiadau pellach am y swydd a sgwrs anffurfiol.














# Bod yn aelod o dîm Ysgol Glan Clwyd

**Rydym fel ysgol yn cynnig:**

- Ysgol sy'n ymroi'n llwyr i ddatblygu ei gweithlu'n egniol gan gynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr, cyson a niferus.
- Ysgol sydd yn edrych yn ei blaen yn barhaus,yn cadw ei bys ar y pyls ac yn agored i unrhyw arfer dda sydd yn cael effaith gadarnhaol ar addysg a chynnydd ei disgyblion.
- Tîm cryf a brwdfrydig o staff sy'n gweithredu fel teulu gan gynnal a chefnogi ei gilydd
- Adeilad ac adnoddau rhagorol wedi eu cynllunio ar gyfer yr addysg orau yn yr 21G
- Adnoddau digidol ac isadeiledd safonol a phwyslais ar agweddau digidol yn yr addysgeg
- Ysgol Gymraeg yn darparu addysg Gymraeg o'r radd flaenaf yng nghanol Sir Ddinbych
- Lleoliad cyfleus yn agos i brifforrdd yr A55 sy'n galluogi i staff deithio atom o 8 sir wahanol.
- Diwrnod Lles blynyddol i bob aelod o staff.









# Gwybodaeth am yr ysgol

Mae Ysgol Glan Clwyd yn ysgol gyfun ar gyfer 1035 o bobl ifanc 11-18 oed gyda thraddodiad o ddarparu profiadau ac addysg ddwyieithog o ansawdd i ddisgyblion ein cymuned. Dyma'r Ysgol Uwchradd Gymraeg gyntaf yng Nghymru ac rydym yn ymfalchïo yn y fraint o ddatblygu plant ac oedolion ifanc Sir Ddinbych yn ddinasyddion cwbl ddwyieithog.

Mae disgyblion yn mynychu'r ysgol o ardaloedd arfordirol yng Ngogledd y sir ac o ardaloedd cefn gwlad. Pob un ohonynt gyda'u toreth o acenion Cymreig sydd yn cyfoethogi ac yn dathlu ein hamrywiaeth Cymreig o dan yr un to!

Amcan yr ysgol yw rhoi'r sylw priodol i ddatblygiad ac addysg pob plentyn a ddaw i'n gofal gan bwysleisio pwysigrwydd profiadau ar lawr dosbarth. Byddwn hefyd yn cynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol boed yn waith elusennol, perfformiadau ysgol gyfan, chwaraeon, profiadau cerddorol gan gynnwys Eisteddfodau yn ogystal â digwyddiadau STEM – mae'r rhestr yn hirfaith!

Bydd gweld disgyblion yn llwyddo yn y meysydd amrywiol hyn yn rhoi'r boddhad mwyaf i ni.

Er mwyn i'n disgyblion fanteisio i'r eithaf ar y profiadau a gynigir, mae'n hanfodol bwysig eu bod yn hapus yn yr ysgol. Mae hyn wrth wraidd ein gwaith beunyddiol ac rydym yn falch o'r enw da sydd gennym fel ysgol sydd yn cynnig gofal ardderchog dros ein disgyblion gan sicrhau'r sylw personol hwnnw. Ein nod yw creu awyrgylch lle mae pob unigolyn, boed yn ddisgybl neu yn athro, yn aelod o'r tîm cefnogi disgyblion neu yn staff gweinyddol yn arddangos parch, parodrwydd a'r balchder o berthyn i deulu Ysgol Glan Clwyd.

Ym mis Medi 2017, agorwyd adeilad newydd sbon yn dilyn prosiect gwerth £15.9 miliwn a ariannwyd ar y cyd gan Gyngor Sir Ddinbych a Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn datblygiad yr ysgol a'i chyfleusterau arbennig galluogir i ni ddarparu disgyblion gydag addysg sy'n gweddu i'r 21ain Ganrif.

**Mae'r cyfleusterau yn cynnwys:**

- Dros 1,000 o liniaduron/Chromebook
- Canolfan Ymchwil
- Theatr pwrpasol
- Stiwdio recordio
- Stiwdio Drama, Cerddoriaeth a Chelf
- Yr unig Gae Pob Tywydd 3G maint llawn yn y sir
- Caeau eang ar gyfer pêl-droed, rygbi ac athletau
- Ardal Gemau Defnydd Amrywiol sy'n cynnwys cyrtiau tenis, cyrtiau pêl-rwyd, cyrtiau pêl-fasged a chyrtiau sponcen
- 6 labordy pwrpasol a 3 labordy arddangos
- Gweithdy Dylunio a Thechnoleg
- Ystafelloedd dysgu modern
- Canolfan 6ed Dosbarth
- Cyfleusterau addysgu sy'n cynnwys dosbarthiadau mawr cyfforddus, ystafelloedd grwpiau llai ac ardaloedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol
- Canolfan Anghenion Addysgol Ychwanegol sy'n cefnogi disgyblion o fewn awyrgylch cefnogol, pwrpasol
- Ystafell fwyta fawr sy'n cynnwys cyfleusterau arlwyo arbennig.





# Manyleb Person

| Agwedd neu Faes | Yn Hanfodol | Yn Ddymunol | Tystiolaeth |
|---|---|---|---|
| Addysg a Chym-wysterau | • Athro / athrawes gymwysedig<br>• Gradd Anrhydedd dda mewn maes perthnasol i'r pwnc<br>• Tystiolaeth addas o hyfforddiant mewn swydd. | • Y gallu i ddysgu maes perthnasol hyd at Safon Uwch<br>• Gradd Uwch | • Ffurflen gais |
| Profiad Perthnasol | • Profiad o weithio â disgyblion o bob gallu<br>• Profiad o weithio gydag athrawon eraill i godi safonau cyrhaeddiad disgyblion. | • Profiad o ddysgu mewn ysgol uwchradd.<br>• Profiad o ddysgu Cwrs Safon Uwch | • Ffurflen Gais<br>• Cyfweliad |
| Gwybodaeth a Sgiliau Cysylltiedig â'r Swydd | • Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r datblygiadau diweddaraf yn eich maes addysgu.<br>• Dealltwriaeth o nodweddion addysgu ardderchog yng Nghyfnodau Allweddol 3, 4 a 5.<br>• Athro/athrawes ardderchog sy'n gallu ysbrydoli disgyblion<br>• Sgiliau rhyngbersonol ardderchog<br>• Sgiliau TGCh da iawn a'r gallu i ddefnyddio TGCh i wella dysgu ac addysgu<br>• Gallu i gymell disgyblion i gyflawni eu potensial<br>• Sgiliau trefnu a gweinyddu da – gallu cadw at amserlenni | • Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r datblygiadau diweddaraf o fewn addysg Anghenion Dysgu Ywchanegol | • Ffurflen Gais<br>• Cyfweliad |
| Nodweddion Personol | • Yn teimlo angerdd ynghylch addysg Gymraeg ac am hyrwyddo'r Gymraeg a Chymreictod o fewn teulu Ysgol Glan Clwyd yn barhaus.<br>• Y gallu i berthnasu gyda phobl ifanc a'u hysbrydoli.<br>• Y dealltiwraeth fod cydweithio fel tîm ac anelu at yr un nod yn hanfodol.<br>• Yn gweithredu cysondeb ac yn ymateb i ddisgwyliadau'r ysgol.<br>• Brwdfrydedd, dyhead ac angerdd at y pwnc ac at y swydd.<br>• Y gallu i weithio'n galed o dan bwysau<br>• Y gallu i drefnu, cynllunio a blaenoriaethu amser yn effeithiol<br>• Ymrwymiad i gyfrannu at fywyd ehangach yr ysgol<br>• Sgiliau cyfathrebu rhagorol, ar lafar ac yn ysgrifenedig yn Gymraeg a Saesneg<br>• Parodrwydd i herio eraill i gynhyrchu canlyniadau cadarnhaol (Arweinydd Maes yn unig) | | • Ffurflen Gais<br>• Cyfweliad |
| Ansawdd y Cais | • Ansawdd y cynnwys – dylid sicrhau nad yw'r datganiad ategol yn fwy na 2 dudalen A4<br>• Cais yn y Gymraeg a'r mynegiant yn raenus | | • Ffurflen gais |



# Telerau'r swydd parhaol a sut i ymgeisio

| | |
|---|---|
| **Rhif y swydd:** | **YYGC00379E5RDE** |
| **Telerau'r swydd:** | **Graddfa Cyflog Athrawon Parhaol** |
| **Dyddiad Cychwyn:** | **Medi 2026** |

**Sut i ymgeisio?**

Manylion ar wefan Sîr Ddinbych ac Addysgwyr Cymru neu drwy Rhian Davies, Swyddog AD Clwstwr Glan Clwyd ar:
**swyddi@ysgolglanclwyd.cymru**

Dyddiad cau'r swydd yw:
**Dydd Mercher 6ed of Fai, 2026.**

Gellir cysylltu â Rhian Davies ar y manylion uchod os am drefnu sgwrs gyda'r Pennaeth, neu ofyn am unrhyw wybodaeth ychwanegol.

**Bydd y penodiad yn amodol ar wiriad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol.**














# Meithrin Cymry Blaengar

Cydweithio fel teulu i gyflawni'r gorau



YSGOL GLAN CLWYD